# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Gradd Sylfaen mewn Rheoli Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol



**Yn gryno**

Byddwch yn dysgu am faterion iechyd cymunedol ac yn datblygu ystod o sgiliau ymarferol i'w defnyddio gyda chleifion. Byddwch yn gwella eich sgiliau cyfathrebu cyffredinol, gweithio mewn tîm, rheoli amser a TG er mwyn gallu gweithio mewn ystod o leoliadau. Cynlluniwyd y cwrs hwn yn benodol i'ch helpu i symud ymlaen i gwrs ym maes iechyd yn y brifysgol megis nyrsio, bydwreigiaeth a gwyddoniaeth barafeddygol.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych yn gweithio yn y sector iechyd a gofal ar hyn o bryd

... Hoffech ddatblygu eich gyrfa

... Ydych chi'n ystyried cwrs sy'n gysylltiedig ag iechyd yn y dyfodol

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Blwyddyn Un: Gradd mewn Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol

Sgiliau Astudio ar gyfer Addysg Uwch - 20 credyd
Ymchwilio i Iechyd a Lles - 20 credyd
Y Gyfraith, Moeseg a Pholisi - 20 credyd
Datblygiad Proffesiynol 1 - 40 credyd
Hanfodion Arwain a Rheoli mewn Ymarfer Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol - 20 credyd

Blwyddyn Dau: Gradd mewn Iechyd, Lles a Gofal Cymdeithasol

Lles mewn Cymunedau a Chymdeithas - 20 credyd
Datblygiad Proffesiynol 2 - 40 credyd
Cyfathrebu ac Ymyrraeth - 20 credyd
Arweinyddiaeth a Rheolaeth Integredig - 20 credyd
Cymhwyso Ymchwil i Waith - 20 credyd

Asesiad

Mae dulliau asesu yn dyblygu'r gweithgareddau hynny sydd eu hangen yn y gweithle megis ysgrifennu adroddiadau, cyflwyniadau, datblygu posteri academaidd, ysgrifennu adfyfyriol, portffolios sy'n seiliedig ar waith, adolygiadau llenyddiaeth, dadansoddi achosion cymhleth a rheoli newid.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Byddwch angen lleiafswm o 3 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg a Saesneg Iaith (neu gyfwerth) ac:

48 o bwyntiau UCAS - cyfrifiannell tariff UCAS
https://www.ucas.com/ucas/tariff-calculator
Mynediad i Addysg Uwch os ydych wedi ennill Diploma Llwyddo gyda 45 Llwyddo

Noder os nad ydych yn bodloni'r meini prawf gradd, efallai y rhoddir ystyriaeth i oed a phrofiad.

Myfyrwyr Rhyngwladol:

Yn gyffredinol, bydd angen i ymgeiswyr rhyngwladol fod wedi cyflawni gradd IELTS gyffredinol gyda sgôr o 6.0 ac isafswm sgôr o 5.5 ym mhob cydran.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl y cwrs hwn, gallwch fynd ymlaen at gyflogaeth mewn swydd ymarferydd cynorthwyol mewn ystod o sefydliadau gofal iechyd, megis y GIG, prosiectau iechyd cymunedol, y sector preifat, gwaith adsefydlu neu ofal cymdeithasol. Gallwch hefyd symud ymlaen at radd BA llawn mewn Iechyd a Llesiant Cymunedol neu ymgeisio ar gyfer cwrs arall sy'n gysylltiedig ag iechyd megis; nyrsio, bydwreigiaeth a gofal cymdeithasol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd angen i chi wneud profiad gwaith, gan fod hyn yn gysylltiedig â modiwlau craidd. Bydd angen gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Felly, mae'n hanfodol i ddysgwyr wneud cais am wiriad DBS fydd yn costio £55.00.

Rhoddir masnachfraint ar gyfer y cwrs hwn gan Brifysgol De Cymru.

Y cod UCAS yw 4A83

Efallai y byddwch angen llyfrau o'r rhestr ddarllen, fodd bynnag fe'ch anogir i ddefnyddio'r llyfrgell ac adnoddau ar-lein.

Yn Coleg Gwent, rydym yn adolygu ein cyrsiau'n rheolaidd mewn ymateb i batrymau newidiol o ran cyflogaeth a'r galw am sgiliau i sicrhau ein bod yn cynnig profiad dysgu sydd wedi'i gynllunio i adlewyrchu anghenion myfyrwyr heddiw a gofynion cyflogwyr yfory.

Os bydd cynnwys cwrs yn cael ei newid yn sylweddol yn ystod proses adolygu, byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi ac i drafod y newidiadau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ond beth bynnag fydd y canlyniad, ein nod yw rhoi’r sgiliau a’r meddylfryd i’n myfyrwyr i lwyddo beth bynnag ddaw yfory. Eich dyfodol, diogel ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn ail-ddilysu cyrsiau yn rheolaidd ar gyfer sicrhau ansawdd a gwelliant.